Vera 14
D49
M557
250
#11

# TYSTIOLAETH Y SANT.

Yn hir mewn tywyllwch y bum i yn byw,
Heb wybod ond 'chydig am lewyrch fy Nuw;
Cymmerais fy arwain ar antur o hyd,
Yn nheyrnas y t'wyllwch, gan lampau y byd.

Ond, diolch, cyfododd yr haulwen i'r làn,
Fu gynt yn goleuo pob un i'r un man;
'Rwyf 'nawr yn ei goleu, yn gweled fy mraint,
Can's gwybod wyf bellach fy mod gyda'r Saint.

Cred rhai anwybodus mai haulwen yw'r lloer,
Ac hefyd mai gwresog yw'r hyn sydd yn oer;
Ac felly dibrisiant oleuni eu Duw,
Gan aros mewn t'wyllwch ac oerfel i fyw.

Ond minnau a gefais oleuni mewn pryd,
A chrefydd sydd lawer fwy gwerthfawr na'r byd;
Duwioldeb a gefais—ni wadais ei grym,
A'i doniau a'i nerthoedd rydd bleser mawr im'.

Mi ffo'is o'r tywyllwch wrth lewyrch y sêr,
A chwrddais â'r porthor wrth borth teyrnas Nêr;
Derbyniwyd fi'n *henddyn*, a chladdwyd fi'n fyw,
A chodais o'm bedydd yn *blentyn* i Dduw.

Derbyniais o'r Ysbryd sy'n rhoddi rhyddhad,
A dysgais yn fuan i waeddi, "Fy Nhad;"
Ac yntau sy'n caru ei blentyn mor fawr,
Nes rhoi y teganau bachgenaidd i lawr.

'Rwy'n falch, ac yn ddedwydd, a'm gwynfyd gerllaw;
Gadawais i'r t'wyllwch fy nychryn a'm braw:
Nid ofnaf mo angeu,—nid ofnaf mo'r bedd,
Yr oll a gaf yno yw huno mewn hedd.

Mae 'Nhad yn fy ngalw; "Dewch allan," medd ef;
'Rwyf 'nawr yn eich gadael, gan gychwyn i dref.
Mae'r byd yn fy ngwatwar—gwatwarent eu rhan,
Af drosodd i Seion o'u swn yn y man.

*Merthyr, Mehefin* 28, 1850. J. DAVIS.

J. DAVIS, ARGRAFFYDD, MERTHYR.

UPB